

Teitl y swydd	Hyfforddeion/Prentisiaid Talent Newydd		
Teulu'r swydd	Hyfforddiant, Hyfforddeion a Phrentisiaid	Graddfa	Graddfa Hyfforddi

Pwrpas y swydd

Cael sgiliau a phrofiad yn barod ar gyfer swydd mewn meysydd sy'n bwysig i anghenion gweithlu'r BBC yn y dyfodol, yn barod i gystadlu am rolau lefel mynediad yn y BBC a'r sector creadigol ehangach.

Prif gyfrifoldebau ac atebolrwydd

- Cwrdd ag amcanion dysgu'r brentisiaeth/hyfforddeiaeth, a hynny mewn modd amserol
- Cwblhau prosiectau a chymau gweithredu penodol seiliedig ar waith sy'n ategu amcanion dysgu
- Cwblhau unrhyw gymhwyster allanol ffurfiol, lle bo hynny'n berthnasol
- Ymgymryd â hunan-ddysgu ehangach sy'n ategu amcanion cyffredinol y brentisiaeth neu'r hyfforddeiaeth, gan chwilio am gyfleoedd a manteisio ar y cyfleoedd hynny
- Bob amser, byw gwerthoedd y BBC wrth ymgymryd â phrosiectau seiliedig ar waith a dysgu yn y dosbarth

Gwybodaeth, sgiliau, hyfforddiant a phrofiad

Gall hyfforddeion a phrentisiaid fod yn raddedigion neu'n ymadawyr ysgol/pobl heb raddio, ac fel rheol maent yn dod i'r BBC ag ychydig iawn o brofiad o fyd gwaith. Gan hynny, rydym yn chwilio am botensial crai ac agwedd wych yn hytrach na phrofiad blaenorol. Yn benodol:

- Awydd cryf i ddysgu a gwthio tu hwnt i barthau cysur unigol
- Meddwl agored i syniadau newydd a rhoi cynnig ar bethau newydd
- Chwilfrydedd a symbyliad cryf
- Gallu dysgu o gamgymeriadau a dangos cydnerthedd
- Chwaraewr tîm rhagorol ac yn barod i weithio ar eich pen eich hun
- Brwdfrydedd amlwg dros faes yr hyfforddeiaeth neu'r brentisiaeth
- Yn frwd dros ein diwydiant
- Bydd gan brentisiaethau a hyfforddiaethau unigol ofynion mynediad pellach penodol - gweler isod

Effaith y swydd

Gwneud penderfyniadau:

- Mae prentisiaid a hyfforddeion yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithgarwch a'u haddysg eu hunain, dan arweiniad a goruchwyliaeth rheolwyr llinell a hyfforddwyr, gyda chymorth tîm Talent Newydd y BBC.

Cwmpas:

- Ar ôl cynefino a hyfforddiant sylfaenol, dylai prentisiaid a hyfforddeion fod mewn sefyllfa dda i wybod pryd i ddelio â phroblemau arferol heb gymorth a phryd/sut i uwchgyfeirio materion
- Y disgwyl yw y bydd angen cyfarwyddyd manwl yn y camau cynnar, ond dylai hyn ddigwydd yn llai aml wrth i brentisiaid a hyfforddeion ennill rhagor o brofiad a chael hyfforddiant

pellach

Gwybodaeth arall**At ddefnydd y Tîm Dyfarnu yn unig**

Cod y Swydd

Diffiniad:

Cefnogi Cynnwys

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn ddatganiad ysgrifenedig o nodweddion hanfodol y swydd, gyda'i phrif gyfrifoldebau, ac mae'n cynnwys cofnod o'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad sy'n ofynnol ar gyfer perfformio i lefel foddhaol. Nid rhoi cofnod cyflawn, manwl o bob agwedd ar y dyletswyddau sy'n rhan o'r swydd yw'r bwriad.

Atodiad

Mae'n bosibl y bydd is-setiau o'r swydd gyffredinol a ddisgrifir uchod yn gofyn am sgiliau technegol ychwanegol. Ar gyfer sefyllfaoedd o'r fath, mae modd datblygu'r atodiad hwn i'r disgrifiad swydd cyffredinol.

Is-adran	
Yn atebol i (teitl)	
Lleoliad	

Strwythur y sefydliad	

Cyfrifoldebau ac atebolrwydd ychwanegol sy'n benodol i'r swydd

Cymeradwyaeth	
Rheolwr	Enw a theitl swydd
Partner Busnes Adnoddau Dynol	Enw
Dyddiad	

